| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Mai 2025** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd**<br><br>**Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Emlyn Jones (Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad), Helen Vaughan-Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau), Liz Grieve (Pennaeth Tai a Chymunedau)** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Robyn Lovelock – Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni** |
| **Teitl** | **Lleoli Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer llwyddiant wrth sicrhau cyllid gwerth uchel ar ôl Brexit** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am sut all Sir Ddinbych osod ei hun i gael mynediad at ffrydiau ariannu gwerth uchel ar ôl Brexit, gan ystyried y prosesau presennol ac anghenion y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I grynhoi'r gwersi a ddysgwyd o ddarparu prosiectau Cronfa Ffyniant Bro a Chronfa Ffyniant Gyffredin i helpu i osod Cyngor Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda ar gyfer unrhyw gyllid gwerth uchel sydd ar gael yn y dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Nodi'r llwyddiant hyd yma o ran sicrhau cyllid trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro, a chanmol yr holl dimau ac unigolion ar draws y sefydliad am ddarparu'r prosiectau a ddarparwyd hyd yma i safon uchel, gan nodi yn benodol, gwaith y Tîm Matrics am gydlynu'r ddarpariaeth a chefnogi llywodraethu o fewn amserlenni tynn.

3.2. Rhoi adborth ar y gwersi a ddysgwyd sydd wedi'u nodi (Atodiad B) a'r themâu sy'n berthnasol ar gyfer ein gosod ni mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol (Atodiad C).

## 4. Manylion yr adroddiad

**Y dull a gymerwyd hyd yma**

4.1. Mae'n bwysig nodi bod y dull a'r amserlenni ar gyfer dylunio rhaglenni a phrosiectau, cymwysiadau a gweithredu wedi'u pennu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

4.2. Mae Atodiad A yn nodi – fel enghraifft astudiaeth achos – y dull a gymerwyd hyd yma i baratoi ac ymgeisio am, a darparu ac adrodd ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'n cynnwys gwybodaeth ar y camau a gymerwyd, pwy oedd yn rhan a rhai myfyrdodau sydd wedi'u bwydo i mewn i ddadansoddiad ehangach o'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) sydd hefyd yn cynnwys ystyried y rhaglenni a ddarparwyd gyda Chronfeydd Ffyniant Bro (Atodiad B).

4.3. Cafodd yr ymateb i'r cyfle am Gyllid Ffyniant Bro ei arwain gan y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes yn nhermau cyflwyno cais. Cafodd yr ymateb i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r rhaglen Cynllun ar gyfer Cymdogaethau (a elwir yn Gynllun Hirdymor ar gyfer Trefi yn flaenorol), ei arwain ar y cyd gan y Gwasanaeth Tai a Chymunedau a'r Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau.

4.4. Mae'r cam darparu, ar ôl derbyn y llythyr dyfarnu grant, wedi'i arwain gan y "Tîm Matrics" a sefydlwyd o fewn y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau i ddarparu rhaglenni Cronfa Ffyniant Bro a Chronfa Ffyniant Gyffredin. Er bod y tîm yn eistedd o fewn y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau, mae'n cael ei ariannu'n llawn gan y cyllid grant allanol ac yn adrodd o ddydd i ddydd drwy drefniant rheoli matrics i Emlyn Jones,

Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad, ar gyfer Cyllid Ffyniant Bro ac i Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

4.5. Gan gynnwys y cam ymgeisio a'r cam darparu, mae'r defnydd o gapasiti ar draws y sefydliad wedi bod yn sylweddol. Roedd angen cynrychiolydd o'r Uwch Dîm Arwain i arwain pob rhaglen fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol gydag ymrwymiadau amser sylweddol a chymhlethdod, ar ben llwythi gwaith a oedd eisoes yn uchel i'r unigolion hynny. Roedd galwadau ar gapasiti sefydliadol yn amrywio yn nhermau amser ac adnoddau gan ddibynnu ar gam datblygu'r rhaglen, nodau'r prosiect a chymhlethdod.

4.6. Mae cyfranogiad aelodau etholedig a'r gymuned wrth ddewis prosiectau Cronfa Ffyniant Bro a Chronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i grynhoi isod:

- Roedd prosiectau Cronfa Ffyniant Gyffredin yn deillio o'r cynllun corfforaethol a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddar yn dilyn ymgysylltiad helaeth â'r cyhoedd ac aelodau
- Mae manylion y trefniadau llywodraethu ar gyfer y ddwy gronfa wedi'u rhannu gyda'r holl gynghorwyr
- Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Craidd Lleol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin – cafodd ei greadigaeth a'r aelodau Bwrdd eu cymeradwyo gan y Cabinet yn 2023
- Mae cynlluniau cyfathrebu yn cael eu rhannu â'r aelodau wrth iddynt ddatblygu (wedi'u cryfhau ar ôl rownd 1 Cronfa Ffyniant Bro)
- Mae'r Grŵp Ardal Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar brosiectau unigol ac ar y cynnydd o ran eu gallu i ddarparu
- Mae'r timau swyddogion wedi cysylltu â'r aelodau lleol cyn gwneud penderfyniadau dirprwyedig perthnasol
- Mae rhestr derfynol o brosiectau Cronfa Ffyniant Bro wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet.

4.7. Mae'n bwynt pwysig, bod gofynion ac felly'r gallu i gyfathrebu ac ymgysylltu o amgylch y cronfeydd hyn wedi'i lywodraethu i raddau helaeth gan wybodaeth ac amserlenni a rennir gan Lywodraeth Cymru/y DU. Mae swyddogion wedi nodi bod y cyfathrebu hyn yn isel o ran sylwedd i ddechrau, yna'n hwyr o'i chymharu â chronfeydd eraill, a bod disgwyliadau cyllidwyr wedi esblygu'n sylweddol ar ôl ei lansio.

**Gwersi a ddysgwyd o'r dull hyd yma**

4.8. Mae'r dadansoddiad SWOT llawn wedi'i atodi fel Atodiad B sy'n ystyried cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau ar draws gamau allweddol y cais i ddarparu Rhaglenni Ariannu ar ôl Brexit, sef:

1. Sganio'r gorwel a'r berthynas â'r rhoddwyr
2. Cwmpasu prosiect a cheisiadau am gyllid
3. Llywodraethu ac ymgysylltu â'r gymuned
4. Dyfarnu cyllid, dechreuad a darpariaeth
5. Monitro, gwerthuso a dysgu.

4.9 Ar ôl cwblhau SWOT ar gyfer pob un o'r 5 cam, darperir dadansoddiad cryno (Atodiad B) a themâu allweddol i'w hystyried yn y dyfodol (Atodiad C). Mae'r themâu hyn yn feysydd y mae'r Cyngor yn cael y cyfle i'w gwella neu/a chyflwyno cyfleoedd i'r Cyngor fwyafu neu/a bygythiadau y mae angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol ohonynt.

4.10 Mae'r hanes hyd yma ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhoi darlun cadarnhaol iawn ac yn myfyrio ar effeithlonrwydd y dull Un Cyngor at weithio, yn arbennig:

- Hanes llwyddiannus CSDd o gael a darparu cyllid Cronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin
- Enw da CSDd yn rhanbarthol fel partner darparu cadarn
- Cydymffurfiaeth CSDd gyda gofynion ariannu ac absenoldeb unrhyw adfachiad.

**Edrych i'r dyfodol**

4.11 Mae yna ansicrwydd sylweddol o hyd o amgylch y dirwedd ariannu yn y dyfodol y tu hwnt i ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (a gadarnhawyd hyd at fis Mawrth 2026) a'r Gronfa Ffyniant Bro 3 (a gadarnhawyd hyd at fis Mawrth 2028). Mae Atodiad C yn rhoi manylion ar y themâu a fydd yn berthnasol i'r Cyngor er mwyn gosod ei hun mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae cyllid ar ôl Brexit wedi'i ddefnyddio ar draws y sefydliad i ariannu nifer o weithgareddau sydd wedi helpu i ddarparu'r Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027. Yn achos y Gronfa Ffyniant Gyffredin, roedd y cais am gyllid wedi'i fapio'n bwrpasol yn erbyn Addewidion a Themâu'r Cynllun Corfforaethol fel bod y ddarpariaeth yn gydnaws ac yn cyd-fynd â chynllun pum mlynedd y Cyngor.

5.2 Tra bod rhai gweithgareddau a ariennir wedi cyfrannu'n uniongyrchol at nodau'r Cyngor o ddod yn Gyngor Di-garbon Net a mwy Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, bydd eraill wedi cynyddu allyriadau carbon ac effeithiau bioamrywiaeth, yn bennaf trwy adeiladu. Bydd yn bwysig i ystyried cyfleoedd pellach i leihau carbon a gwella canlyniadau bioamrywiaeth y prosiectau wrth symud ymlaen. Bydd angen i brosiectau hefyd ystyried sut maent yn cefnogi cymunedau i addasu ar gyfer a bod yn wydn wrth wynebu mwy o lifogydd, stormydd a gwres.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Fel y nodir yn yr adroddiad a'r cynllun gweithredu, mae cyfleoedd ar draws y sefydliad i helpu i wella prosesau – yn cynnwys goblygiadau o ran caffael, cyfreithiol, marchnata a chyfathrebu, hinsawdd a natur.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Mae'r ddogfen gwersi a ddysgwyd yn nodi materion ac yn cynnig gwelliannau, nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, efallai bydd angen i'r prosesau newydd a gadarnhawyd o'r adolygiad hwn gael asesiad effaith.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cafodd y ddogfen hon ei datblygu gyda mewnbwn gan Emlyn Jones - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad; Liz Grieve - Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Chymunedau; Helen Vaughan-Evans: Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau; a'u huwch reolwyr. Mae wedi cael ei drafod yn y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

8.2 Y bwriad yw bod y papur hwn a’r adborth gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn mynd i Friffio'r Cabinet ar gyfer trafodaeth.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o adolygu’r prosesau ariannu ar ôl Brexit.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gall methiant i adolygu ein prosesau arwain at golli cyfleoedd ariannu, neu i’r gwrthwyneb, lle mae grantiau allanol yn cael eu cymryd yn amhriodol gan y Cyngor gan gynyddu risgiau corfforaethol ac ar lefel gwasanaeth.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.